

Cyngor Caerdydd

Hysbysiadau Cosb Benodedig am Ddiffyg Presenoldeb yn yr Ysgol

Cod Ymarfer

1. Sail a rhesymeg gyfreithiol

Mae presenoldeb rheolaidd a phrydlon yn yr ysgol ac mewn darpariaethau amgen yn ofyniad cyfreithiol ac yn hanfodol os yw plant a phobl ifanc am fanteisio ar ystod o gyfleoedd addysgol sydd ar gael iddynt a chyflawni eu potensial llawn. Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i addysg briodol sy'n bodloni eu hanghenion, ac mae hefyd lai o berygl iddynt gael eu niweidio yn yr ysgol.

Mae'r mwyafrif o ddysgwyr yn mynd i'r ysgol yn rheolaidd, yn cyrraedd yn brydlon ac yn ymgysylltu'n llawn â'r cwricwlwm, ond i rai, mae mynychu'r ysgol yn rheolaidd yn her, a gall hynny fod am amryw resymau. Mae ystod o strategaethau asesu ac ymyryd ar gael gan ysgolion a swyddogion o'r Awdurdod Lleol i helpu teuluoedd i oresgyn rhwystrau i fynychu'r ysgol yn rheolaidd.

Yng Nghymru, mae deddfwriaeth (Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013) wedi rhoi pwerau newydd i awdurdodau lleol i gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) i rieni plant a phobl ifanc sy'n absennol o'r ysgol, trefniadau addysg heblaw mewn ysgol, a/neu unedau cyfeirio disgyblion, a hynny heb awdurdodiad.

Dirwy o £60 yw HCB a all gael ei ddosbarthu i riant/ofalwr os bydd ei blentyn yn absennol o'r ysgol heb awdurdodiad. Mae 'rhiant' yn cael ei ddiffinio i gynnwys pob rhiant naturiol a does dim gwahaniaeth p'un a ydyn nhw'n briod ai peidio. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw berson sydd â chyfrifoldeb rhiant a/neu sy'n gofalu am blentyn neu berson ifanc, nad yw'n rhiant naturiol arno.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno HCBau fel ffordd ychwanegol o fynd i'r afael â'r broblem o absenoldeb heb awdurdodiad o'r ysgol, yn arbennig mewn amgylchiadau lle mae disgwyliad rhesymol y bydd hyn yn sicrhau gwelliant yn y dyfodol. Mae gan rieni/ofalwyr gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod plentyn yn mynychu ysgol yn rheolaidd ar ôl iddo gael ei gofrestru yno. Cyflawnir trosedd pan fydd rhiant/gofalwr yn methu â sicrhau hyn heb allu rhoi rheswm i gyfiawnhau'r absenoldeb.

Gwahoddiad yw hysbysiad cosb benodedig i unioni'r camwedd a gall cosb ariannol o hyd at £120 fod yn rhan ohono. Gellir cyflwyno'r rhain i riant/ofalwr yn dilyn absenoldeb rheolaidd ei blentyn mewn darpariaeth ysgol/addysg.

Amlinellir y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu HCBau yn y canlynol:

- Adrannau 444A a 444B Deddf Addysg 1996;
- Deddf Addysg ac Arolygon 2006;
- Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013;
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011;
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (yr Hawl i Addysg).

Rhaid i benaethiaid wneud penderfyniadau ar awdurdodi absenoldeb a chodio dilynol (Codau Presenoldeb Cymru Gyfan 2010) i gategoreiddio'r rheswm dros yr absenoldeb. Mae gan bob ysgol Bolisiau Presenoldeb ac mae'n rhaid i'r rhain amlinellu'n glir y gweithdrefnau bob dydd sydd ar waith i ymchwilio i absenoldeb disgybl a sut y bydd yr ysgol yn penderfynu a oes modd cyfiawnhau'r absenoldeb. Noda'r Rheoliadau Cofrestru fod yr amddiffyniadau statudol (sy'n dderbyniol dan y gyfraith) am absenoldeb o'r ysgol fel a ganlyn:-

- Mae'r absenoldeb wedi'i awdurdodi;

- Doedd dim modd i'r disgybl ddod i'r ysgol oherwydd salwch neu achos arall nad oedd modd ei osgoi;
- Roedd yr absenoldeb ar ddiwrnod a neilltuwyd ar gyfer addoli crefyddol;
- Methodd yr awdurdod lleol â gwneud trefniadau teithio addas i hwyluso presenoldeb (Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008);
- Mae'r plentyn wedi'i ddiarddel.

Ar ôl cyflwyno HCBau, rhaid i bob un o awdurdodau lleol Cymru sicrhau bod Cod Ymarfer ar waith. Rhaid i bob partner gyflawni ei ddyletswyddau statudol o ran sicrhau presenoldeb ysgol.

2. Pwy all ddyfarnu Hysbysiad Cosb Benodedig?

Mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi pwerau i benaethiaid (gan gynnwys eu dirprwyon enwebedig), yr athro yng ngofal yr UCD, y Cydlynnydd Addysg Heblaw yn yr Ysgol, yr Heddlu, a swyddogion awdurdod lleol dynodedig ddyfarnu neu wneud cais am HCBau. Fodd bynnag, i sicrhau arfer cyson ac i osgoi dyblygu HCBau, y Gwasanaeth Lles Addysg yn unig fydd yn gyfrifol am reoli a gweinyddu HCBau yng Nghaerdydd.

Bydd y gwasanaeth yn gweithio mewn ymgynghoriad a phartneriaeth ag ysgolion, UCDAu a swyddogion heddlu lleol i gysoni'r ffordd y defnyddir HCBau. Bydd y gwasanaeth hefyd yn sicrhau na chân nhw eu cyflwyno pan fydd camau'n unol ag adran 444 (1) neu (1A) yn cael eu hystyried neu ar ôl iddyn nhw fynd ar waith.

3. Arfer Presennol Caerdydd wrth Ymateb i Absenoldeb Disgyblion

Mae Fframwaith 5 Cam Caerdydd ar gyfer Rheoli Presenoldeb yn nodi'n glir rolau, cyfrifoldebau a gweithredoedd i Ysgolion, Swyddogion Presenoldeb Ysgolion a'r Gwasanaeth Lles Addysg eu cyflawni i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â phresenoldeb ac i ymchwilio i absenoldeb.

Mae HCBau yn opsiwn ychwanegol y gellir eu defnyddio fel rhan o ystod eang o strategaethau ymyrraeth a chymorth i wella presenoldeb yn yr ysgol. Ni fwriedir i'r ddeddfwriaeth newydd ar HCBau gael ei defnyddio mewn ymateb i ddiffyg presenoldeb cyson na newid gwaith achos traddodiadol y Gwasanaeth Lles Addysg gyda theuluoedd. Y bwriad gyda HCBau yw ymyrryd yn gyflym, a chredir eu bod ar eu mwyaf effeithiol mewn gwaith ymyrryd cynnar neu pan gânt eu dyfarnu dan amgylchiadau penodol, dros gyfnodau fel Cyfnod Allweddol 4, cyn arholiadau, neu gyda grwpiau oedran penodol hyd yn oed.

4. Amgylchiadau sy'n arwain at ddyfarnu Hysbysiad Cosb Benodedig

Cyfrifoldeb ysgolion/UCDAu/Addysg Heblaw yn yr Ysgol a/neu'r heddlu fydd **gwneud cais** i'r Gwasanaeth Lles Addysg am HCB ac ni chaiff y ceisiadau hynny eu hystyried oni phroffir bod absenoldeb heb awdurdodiad oherwydd yr amgylchiadau canlynol: -

- Pan fo o leiaf 10 'sesiwn' heb awdurdodiad (sef 5 diwrnod ysgol) mewn blwyddyn academaidd (nid oes rhaid iddynt fod yn olynol);
- Mae disgyblion yn cyrraedd ar ôl i'r cyfnod cofrestru ddod i ben yn gyson h.y. mwy na 10 sesiwn mewn blwyddyn academaidd (does dim rhaid i'r rhain fod yn olynol); (argymhellir cyfnod o ddeng munud ar hugain ar gyfer cofrestru);
- Cyfnod o absenoldeb o'r ysgol oherwydd gwyliau nas awdurdodwyd gan yr ysgol (o leiaf 10 sesiwn);

- Mae disgybl wedi dod i sylw'r heddlu yn rheolaidd yn ystod oriau ysgol ac mae'n absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol a bu'n absennol 10 gwaith heb awdurdodiad.

Gellir cyflwyno hyd at dri HCB i riant mewn 12 mis, ac o'r rhain, hyd at un am 10 absenoldeb heb awdurdodiad yn dilyn rhybudd. Gellir cyflwyno HCB i fwy nag un plentyn os yw presenoldeb mwy nag un plentyn mewn un teulu'n wael.

Does dim cyfyngiadau ar nifer y gweithiau y gellir cyflwyno hysbysiad ffurfiol o HCB. Ni fyddai'n dderbyniol cyflwyno "rhybuddion" dro ar ôl tro heb ymchwilio ymhellach i'r amgylchiadau ehangach.

5. Gweithdrefn cyflwyno hysbysiad cosb benodedig

Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg yn ymateb i bob cais i ddyfarnu hysbysiadau cosb o fewn deg diwrnod ysgol i'r cais ddod i law. Mae modd i benaethiaid, athrawon yng ngofal UCD, Cydlynwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol, yr heddlu ac awdurdodau lleol cyfagos wneud cais. Bydd y Gwasanaeth Lles Addysg:

- Yn anfon rhybudd ysgrifenedig ffurfiol i'r rhiant/gofalwr gan roi gwybod iddo y gallai gael hysbysiad cosb benodedig a'r rhesymau dros hynny;
- Yn pennu cyfnod o 15 diwrnod i'r rhiant/gofalwr ymateb. Yn ystod y cyfnod 15 diwrnod, rhaid i'r disgybl fynychu'r ysgol heb unrhyw absenoldeb heb awdurdodiad. Gall y cyfnod monitro hwn ymestyn dros ddau dymor.
- Os, ar ddiwedd y 15 diwrnod, bu'r disgybl yn absennol heb awdurdodiad, cyflwynir hysbysiad tâl cosb drwy'r post dosbarth cyntaf. Tybir bod y rhiant perthnasol wedi ei gael ddeuddydd ar ôl iddo gael ei anfon.

Pan fydd ysgol yn gofyn i Hysbysiad Cosb Benodedig gael ei ddyfarnu mewn ymateb i gyfnod o absenoldeb gwyliau heb awdurdodiad, ni fydd y llythyr rhybuddio ffurfiol na'r cyfnod gwella 15 diwrnod yn berthnasol.

6. Talu hysbysiad cosb

£60 yw swm HCB os caiff ei dalu o fewn 28 diwrnod ar ôl iddo ddod i law, ac mae'n cynyddu i £120 os caiff ei dalu ar ôl 28 diwrnod (ac o fewn 42 diwrnod ar ôl iddo ddod i law).

Bydd manylion am dalu ar yr hysbysiad cosb.

Pan fydd wedi cael ei dalu, ystyrir bod atebolrwydd y rhiant/gofalwr wedi'i gyflawni, ac ni ellir yna'i erlyn dan bwerau gorfodi eraill am yr un cyfnod ag a gwmpesir gan yr HCB.

Yn amodol ar gydymffurfiaeth ag Adran 21 y Rheoliadau, ceidw Cyngor Caerdydd y referniw o hysbysiadau cosb er mwyn talu am y costau gorfodi sy'n deillio o'r mater, costau casglu neu, mewn achosion lle na thelir yr hysbysiad, costau erlyn. Bydd unrhyw swm sy'n weddill yn mynd at gronfa gyfunol Cymru.

Mae'r gyfraith yn rhagnodi'r amserlenni talu a'r symiau i'w talu a does dim modd eu haddasu fesul achos. Does dim modd trefnu cynllun talu misol.

7. Methu â thalu hysbysiad cosb

Os na thelir HCB o fewn 42 diwrnod, rhaid i'r Awdurdod Lleol wneud un o'r canlynol:

- Erllyn y rhieni/gofalwyr yn y ffordd arferol yn unol ag adran 444(1) a (1A) Deddf Addysg 1996) neu
- Tynnu'r HCB yn ôl (mewn amgylchiadau cyfyngedig sydd wedi'u nodi yn y Cod Ymarfer).

8. Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

Wedi ei gyflwyno, nid oes modd tynnu hysbysiad cosb yn ei ôl oni phrofir y canlynol:

- Cyflwynwyd yr hysbysiad i'r person/cyfeiriad anghywir;
- Ni chydymffurfiodd yr hysbysiad â'r Cod Ymarfer hwn a ni ddylid ei gyflwyno;
- Dengys amgylchiadau a thystiolaeth na ddylai'r hysbysiad fod wedi'i gyflwyno yn y lle cyntaf e.e. tystiolaeth feddygol (mae gan rieni/gofalwyr gyfnod o 15 diwrnod i gyflwyno'r dystiolaeth hon);

Caiff y rhiant/gofalwr wybod bod yr hysbysiad wedi'i dynnu'n ôl, a chaiff unrhyw swm a delir ei ad-dalu i'r unigolyn a'i talodd. Ni fydd rhagor o gamau'n cael eu cymryd yn erbyn y rhieni/gofalwr am y drosedd y mae'r hysbysiad a dynnwyd yn ei ôl yn ymwneud ag ef nac am drosedd dan adran 444 (1 ac 1A) Deddf Addysg 1996 a ddeilliodd o'r un amgylchiadau.

Nid oes hawl statudol i apelio yn erbyn hysbysiad cosb. Os yw rhiant/gofalwr am herio hysbysiad dylai gyflwyno cwyn i'r Gwasanaeth Lles Addysg a/neu wynebu camau erlyn yn Llys yr Ynadon dan adran 444(1) Deddf Addysg 1996 lle y gellir trafod materion yng nghyswllt yr Hysbysiad Cosb Benodedig yn llawn.

9. Polisi a chyhoeddusrwydd

Er mwyn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gwbl ymwybodol o ddeddfwriaeth HCB, rhaid i bob ysgol/UCD, gyda chymorth gan y corff llywodraethu, gynnwys gwybodaeth glir am ddeddfwriaeth HCB yn eu Polisi Presenoldeb.

10. Adolygiad ac adrodd ar y Cod Ymarfer

Bydd Gwasanaeth Lles Addysg Caerdydd yn monitro'r defnydd o hysbysiadau tâl cosb fel rhan o'r broses sicrhau ansawdd gan roi data meintiol i Lywodraeth Cymru ar gais.

Caiff y Cod Ymarfer ei adolygu'n rheolaidd a'i ddiwygio'n ôl yr angen.

11. Sut i gael rhagor o wybodaeth

Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan:

Y Gwasanaeth Lles Addysg

Cyngor Caerdydd

Neuadd y Sir

Glanfa'r Iwerydd

Caerdydd

CF10 4UW

Rhif Ffôn: **02920 873619**
atgyfeiriadauGLLA@caerdydd.gov.uk